# Bwrdd S4C

Adolygiad o Gynnwys 2024–25

Mehefin 2025

**Cyflwyniad**

Ers ei sefydlu, bu S4C yn comisiynu cynnwys i ddiddanu ac addysgu yn y Gymraeg, gyda chynnwys sydd yn adlewyrchu'r wlad yn ei holl ogoniant o amrywiaeth. I gynnal hynny, mae'n raid wrth sector gynhyrchu sydd wedi gwasgaru'n ddaearyddol dros Gymru ac yn cyfleu ystod o syniadau gyda gwerthoedd cynhyrchu gystal â'r hyn a welir gan wylwyr ar blatfformau a gan ddarlledwyr eraill.

Rôl S4C yw bod yn arweinydd a chrewr, trwy osod y cyfeiriad strategol ar y cynnwys a'r sector, gan ymateb i ddyheadau'r gwylwyr. Dylai hefyd fod yn agor y drws i gyfleoedd masnachol fel bod y sector yn fwy gwydn ac yn barod, beth bynnag all godi yn y dyfodol.

Wrth werthuso ar ddiwedd 12 mis o ddarlledu, mae'n allweddol ein bod yn ystyried y llwyddiannau yn ogystal â'r meysydd lle mae lle i wella. Mewn diwydiant lle rydym yn ceisio rhagdybio arferion pobl ymhen 6–10 mis neu fwy, mae heriau'n anochel. Ond mae gwersi i'w dysgu – rhai gwerthfawr, fydd yn ein galluogi i wella wrth symud ymlaen.

Conglfeini'r gwasanaeth yw cynnwys ar gyfer plant, drama a chwaraeon. Rydym wedi nodi cyfleoedd i gryfhau ym mhob un o'r rhain, a dyma fydd ein blaenoriaeth am y 12 mis nesaf, wrth barhau gyda'r gwaith o gynyddu'r gynulleidfa ymhlith siaradwyr C2DE ac unigolion 25–44 oed.

**Chwaraeon**

Gellir disgrifio'r tirlun darlledu a chynnwys fel un deinamig ond hefyd yn anwadal, gyda newidiadau mawr yn digwydd y tu hwnt i'n rheolaeth fel darlledwr.

Byddwn yn darlledu gêm agoriadol taith rygbi'r Llewod, yn erbyn yr Ariannin o Ddulyn, ar y cyd gyda TG4 – a ni fydd yr unig ddarlledwr rhad ac am ddim ym Mhrydain gyda'r hawliau. Byddwn hefyd yn dangos uchafbwyntiau awr o bob gêm o'r daith, am 8pm ar ddiwrnod y gêm. Yn ogystal, byddwn yn darlledu pob gêm yn fyw o bencampwriaeth Ewro 2025 tîm y merched yn y Swistir.

Ym myd pêl-droed, gan fod deiliaid yr hawliau wedi ildio'r cytundeb yn ôl i UEFA, rydym bellach yn rhannu'r hawliau byw ar gyfer gemau tîm y dynion gyda'r BBC. Golyga hyn fod y cwmni cynhyrchu Rondo wedi colli'r gwaith hwnnw. Er ei bod yn hawdd anghofio, rydym wedi bod yn cynnig gwasanaeth pwysig i Gymru gyfan drwy ddarlledu'r gemau hyn ers 2015. Er bod ffactorau allanol wedi arwain at y newid, rydym yn parhau i ddarlledu'r gemau yn fyw – ac mae hynny'n bwysig i'w nodi.

Gyda TNT bellach wedi casglu'r holl hawliau seiclo, blwyddyn olaf cytundeb S4C yw 2025 i ddarlledu Le Tour de France – hawliau sydd gennym ers 2014, gan gynnwys darlledu llwyddiant y Cymro cyntaf yn fyw yn 2018. Gyda chamau agoriadol y ras yn dod i Gymru yn 2027, rydym yn negodi'n ofalus drwy sawl llwybr i geisio sicrhau'r hawliau i'r dyfodol. Fel pecyn o 2.5 awr (neu fwy) yn ddyddiol am dair wythnos, mae'n cynnig gwerth arbennig i S4C.

Rydym yn parhau i ddarlledu rhaglenni uchafbwyntiau o rasys rhedeg mwyaf Cymru, gan gynnwys triathlons a rasys antur. Byddwn hefyd yn darlledu twrnamaint dartiau Chwe Gwlad yn fyw ac yn ecsgliwsif.

**Drama**

Llwyddiant mawr y llynedd oedd stori dditectif Cleddau, ddenodd ar gyfartaledd o 42,000 yn gwylio'r penodau yn llinol a 62,000 arlein. Dyma un o'r dramau fwyaf poblogaidd yn y deng mlynedd diwethaf ar S4C a bydd ail gyfres ar y sgrin yn 2026.

Roedd amrywiaeth o ddramau hefyd, sef Creisis wedi'i gosod yn y sector gofal cymdeithasol ac ar Y Ffin mewn llys barn.

**Newyddion, Materion Cyfoes ac Amaeth**

Gydag etholiadau Senedd Cymru ymhen blwyddyn, rydym am gynyddu nifer y penodau o'r gyfres Byd yn ei Le a gaiff eu cynhyrchu, gan gynnwys pedwar ychwanegol fydd ar gael yn ddigidol yn unig. Bydd y safon drafod a dadansoddi yn parhau'n uchel, gyda dau nod yn sail i'r gwaith hwn: ar y naill law, cynyddu'r cynnwys sy'n trafod gwleidyddiaeth, ac ar y llaw arall, denu'r gynulleidfa draddodiadol i'r byd digidol fel cyrchfan i wylio cynnwys.

Bydd Y Byd ar Bedwar a Phawb a'i Farn hefyd yn parhau fel cyfresi materion cyfoes a thrafod sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda'n gwylwyr.

Rydym wedi gweld twf yn y defnydd o gynnwys digidol Newyddion S4C, wrth i'r adran dyfu a denu cyfran gref o ymatebion gan ddefnyddwyr.

Rhan bwysig o'n harlwy llinol yw Newyddion S4C, a gynhyrchir gan y BBC, a Newyddion Ni. Mae'r ddwy gyfres yn cyfuno straeon rhyngwladol ac o Gymru i gynnig gwasanaeth nosweithiol i'r cynulleidfa.

Gyda'n cynnwys amaethyddol, mae'r gyfres Ffermio gan Telesgop yn parhau'n sylfaen gadarn i'n darpariaeth, gan ohebu bob wythnos ar straeon yn ymwneud gyda'r byd amaeth. Portreadir sawl stori am fywyd amaethyddol yng nghyfres Cefn Gwlad.

**Ffeithiol**

Dwy gyfres lwyddiannus yn y maes hwn oedd Ar Brawf – golwg agos ar waith gwerthfawr swyddogion prawf – a chyfres arall o Y Llinell Las. Mae hon yn gyfres lle mae'r cydweithredu gyda'r heddlu ar lawr gwlad wedi datblygu'n raddol, ac erbyn hyn mae'r heddlu'n gefnogol iawn o roi mynediad i adrannau eraill. Mae'r gyfres yn cynnig golwg realistig ar fywyd bob dydd yr heddweision. Rydym yn gobeithio cael mynediad eto i'r gwasanaeth prawf yn ystod y flwyddyn nesaf.

Bu sawl rhaglen ddogfen unigol gref, gan gynnwys taith yr hen chwaraewr rygbi Nathan Brew i Ghana, i olrhain hanes ei deulu a hanes caethwasiaeth. Er eu bod yn straeon pwerus, mae rhaglenni unigol o'r math yn aml yn anodd i'w hyrwyddo, a gallant fynd ar goll mewn amserlen brysur.

**Gwylwyr Ifanc**

Ein her yn y maes yma yw adnabod beth yw'r cyfleoedd – ac mae'r cyfleoedd hynny'n datblygu'n gyflym.

Dyma yw'r strategaeth ganolog ar gyfer Hansh: cynllun cyhoeddi cyfresi ffurf ganolig, ar egwyddor 'nifer uchel / pris isel', gan ganolbwyntio'n benodol ar YouTube yn y cam cyntaf. Mae Hansh yn parhau i fod yn gartref i ddiwylliant poblogaidd a chyfoes Cymru, ac yn gwneud lle i gynnwys feiral Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Pan fo'n briodol, mae Hansh hefyd yn cefnogi'r amserlen llinol – gan ddangos bod S4C yn sianel i'r ifanc nad yw'n ofni cymryd risg. Rydym yn datblygu lleisiau a thalent newydd, gan roi'r cyfleon (a'r credydau) i wynebau ifanc sy'n dechrau ar eu gyrfa. Mae'r nod yn glir: bod yn swnllyd ac yn weledol, ym mhob cwr o Gymru.

**Adloniant**

Roedd Amour a Mynydd yn gyfres wahanol iawn i'r arfer ar S4C – cysyniad gwreiddiol gan gwmni Darlun, a chyfres fformat a ffilmiwyd yn yr Alpau. Cafodd chwaer gyfres ei chyfleu ar yr ochr ddigidol hefyd, gan ddenu gwylwyr rheolaidd yn y gofod hwnnw.

Y tu hwnt i'r arlwy arferol yn y maes – megis y cystadlaethau corawl, yr eisteddfodau a Noson Lawen – mae cyfres Y Llais wedi gwneud argraff fawr. Cafodd sylw a llwyddodd i ddenu cyfran o'r gynulleidfa nad yw'n cael ei denu'n hawdd fel arfer a bydd yn dychwelyd yn 2026.

**Plant**

Mae cynnwys plant S4C yn parhau ddiddanu ein gwylwyr iau gan ddenu siaradwyr newydd at ein cynnwys ni a chynnal yr iaith. A ninnau'n llenwi 40 awr o gynnwys plant bob wythnos yn ogystal a rhoi cynnwys ar YouTube Cyw a'r platfformau eraill roedd sawl uchafbwynt yn 2024.

Yn rhan o arlwy Cyw fe ddarlledwyd y gyfres hwyliog Help Llaw lle gwelir partneriaeth gyda'r gymdeithas Maketon a phlentyn o ysgol arbennig Pendalar yn y brif ran. Gwelwyd hefyd y gyfres ddrama slapstic Annibendod oedd wedi ei chynllunio ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl cyfnod allweddol 1 a dysgwyr cyfnod allweddol 2. Ffordd newydd o ddenu siaradwyr o bob rhuglder at y cynnwys plant a Bochau y bochdew yn dod yn seren bop ar YouTube Cyw.

Fe dyfodd y gyfres Cywion Bach o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn gyda lawnsiad Ap y gyfres a llyfr ychwanegol gan y Lolfa. Ac fe ymwelodd ein hoff gymeriad Ben Dant a degau o ysgolion er mwyn creu campweithiau wedi ail-gylchu yn y gyfres Bendibwmbwls.

Fel rhan o Stwnsh daeth Dr Bedwyr ab Ion i'r sgrin yn y gyfres wyddonol Pwy, Sut, Pam? Gwelwyd y gyfres ddiweddaraf o Itopia gan lenwi ein sgrin efo Zombis. Cafwyd cyfres ob doc gyntaf Stwnsh oedd yn dilyn plant a'u ceffylau yn Carlamu ac aeth y gyfres bel droed Tekkers unwaith eto o nerth i nerth gyda cannoedd o blant yn awyddus i gymryd rhan heb anghofio wrth gwrs am ein cyfres fore Sadwrn Stwnsh Sadwrn.

Ym myd y ddrama fe gyhoeddwyd ein drama gyntaf i blant 11+ sef Y Corridora bu'n llwyddiant ysgubol ymysg plant sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr gan ddod yn rhan o'r cwriciwlwm ail iaith. Trwyddedwyd penodau rhaglenni arbennig y Nadolig o Deian a Loli i'w dangos ar You Tube S4C dros gyfnod y Nadolig a wedi bod yn llwyddiant ysgubol.